Academic & Student Support Services
Academic Registrar Simon Wright LLB
Gwasanaethau Academaidd a Chefnogi Myfyrwyr
Cofrestrydd Academaidd Simon Wright LLB

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 ODE

Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 ODE

Anfonwyd drwy ebost at r.g.rhys@abertawe.ac.uk **30 September 2016**

Annwyl Dr Rhys,

Parthed: Ymateb Sefydliad: Adroddiadau Arholwyr Allanol 2015 – 2016

Rwy'n ysgrifennu atoch ar ôl derbyn eich Adroddiad Arholwr Allanol ar gyfer MA Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd, a BA Cymraeg.

Yn unol â'n harfer safonol, anfonir copi o'r Adroddiad at yr Ysgol dan sylw, a fydd yn defnyddio'r cynnwys i helpu i lywio ei broses Adolygiad a Gwelliant Blynyddol. Mae'r Brifysgol yn falch o'ch sylwadau cadarnhaol, gan gynnwys:

1. **eich nodiadau cadarnhaol ynghylch strwythur y rhaglen, safonau academaidd a'r broses asesu;**
2. **eich canmoliaeth ar gyfer y Modiwl Ymchwil Academaidd a Phroffesiynol yn yr MA Cymraeg ac Astudiaethau Celtaidd;**
3. **eich sylwadau cadarnhaol ynglŷn â hyfforddi myfyrwyr mewn sgiliau cyfathrebu a dadansoddi, a hefyd ynglŷn â'r dull datblygu sgiliau ymchwil.**

Ymddengys nad yw eich adroddiad yn codi unrhyw faterion penodol y mae angen ymateb iddynt yn fwy manwl. Yn unol â hynny, nid yw'r Ysgol wedi gofyn am gael ymateb yn ffurfiol i'r Adroddiad.

Rwy'n gobeithio y bydd yr ymateb hwn yn foddhaol, a diolch i chi am eich cefnogaeth barhaus ar gyfer y rhaglen.

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 0DE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0DE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk

Er mwyn bodloni disgwyliadau Côd Ansawdd yr Asiantaeth Sicrhau Ansawdd ar gyfer Addysg Uwch (QAA), bydd Adroddiad Blynyddol yr Arholwr Allanol a'r Ymateb hwn gan y Sefydliad yn cael eu cyhoeddi ar wefan y Brifysgol, a byddant ar gael yn gyhoeddus.

Drwy ddarparu Ymateb Sefydliad ffurfiol, nid yw'n fwriad gan y Brifysgol orfodi cyfathrebu uniongyrchol rhwng Ysgolion a'u Harholwyr Allanol. Caiff Ysgolion eu hannog i drafod unrhyw faterion manwl sy'n codi yn eu Hadroddiadau gyda'u Harholwyr Allanol, yn ogystal ag unrhyw faterion sy'n effeithio ar ansawdd a safonau dyfarniadau, gan gynnwys newidiadau posibl i raglenni.

Rydym yn hynod ddiolchgar i chi am eich sylwadau ac am eich cefnogaeth yn y mater hwn.

Yn gywir,

Mr Simon Wright
Cofrestrydd Academaidd

Cardiff University
McKenzie House
30-36 Newport Road
Cardiff CF24 0DE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.cardiff.ac.uk

Prifysgol Caerdydd
Tŷ McKenzie
30-36 Heol Casnewydd
Caerdydd CF24 0DE
Tel *Ffôn* l +44(0)29 2087 9189
www.caerdydd.ac.uk